

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon.  
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Tachwedd 12fed 2014  
am 7 - 0 o'r gloch.**

- 1. Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng. E Jones, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.  
**Presennol** - Cynghorwyr Emlyn Jones (Is-Gadeirydd), Ruth Roberts, Mary Ellis, Wyn Hughes, Lewis Davies, Dafydd Roberts, Alan Owen, Carwyn Jones, Ann Roberts, Keith Williams a Geraint Parry (Clerc).
- 2. Ymddiheuriadau:-**  
Cyng. Delyth Jones, Gareth Moore a Alwyn Rowlands.
- 3. Cofnodion**  
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8fed o Hydref fel rhai cywir gan Cyng. L Davies ac eiliwyd gan Cyng. R Roberts.  
Agorwyd y cyfarfod gan estyn croeso cynnes i'n Cynghorydd newydd Keith Williams.
- 4. Materion yn Codi o'r Cofnodion**
  - 4.10 **Adeilad y Geidwaid** - nid oes unrhyw wybodaeth bellach dilyn asesiad gan y frigâd dân. Mae'r adeilad wedi ail-agor.
  - 4.11 **Coed ar lôn Glan-Ilyn** - coed wedi ei dorri o amgylch y lôn. Clerc wedi trafod y mater gyda Menter Môn er mwyn cael rhannu rhywfaint o'r gost, lle eglurwyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned oedd gwaith cynnal a chadw.
  - 4.12 **Sedd Gwag** - nawr wedi ei lenwi. Clerc yn egluro y bydd gost o £135 ar gyfer y gwaith gweinyddu ayyb gan y Cyngor Sir.
  - 4.13 **Gwaith cynnal a chadw** - Cytunwyd ar amcangyfrifon ar gyfer gwaith atgyweirio coed o gylch tap dwr yn Fynwent y Plwyf am £85, fainc ym Maes Chwarae Plant am £45 a hefyd ar y hen bwmp ger Kirklees yng Nglanrafon am £100.
  - 4.14 **Arwyddion Baw Ci** - Clerc i gyfarfod y PSCO i symud pethau ymlaen.
- 5. Datgan Diddordeb**
  - Cyng. D Roberts ar drafodaeth Canolfan Hamdden Biwmares
  - Cyng. A Owen ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
  - Cyng. L Davies ar geisiadau 35C110A, 35C175B a 35C196D.
  - Cyng. M Ellis ar drafodaeth Grwp Cymunedol Llangoed
- 6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**
  - 35C110A - Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir ger Bwthyn Glandwr, Glanrafon - amodol o fod o fewn rheolau cynllunio.
  - 35C175B - Cais llawn i ddymchwel ystafell haul presennol, addasu ag ehangu ynghyd ac ymestyn y cwrtill yn Tan y Fron, Penmon - dim gwrthwynebiad.
  - 35C196D - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu gyda gwybodaeth ychwanegol yn Hen Efail, Glanrafon - dim gwrthwynebiad.
- Er Gwybodaeth:-**
  - 35C320 - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd yn Pen Waen, Glanrafon - wedi cael ei dynnu'n ôl.
  - 35C97F - Cais llawn ar gyfer newid defnydd rhan o adeilad ar y llawr isod i fflat yn Cornelyn Manor, wedi ei caniatáu.
  - 35C97G - Cais llawn i newid defnydd rhan o'r annedd ar y llawr isaf i ddwy swyddfa yn Cornelyn Manor, wedi ei caniatáu.
  - 35C90F/MIN - man newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatau yn flaenorol o dan ganiatad 35C90D/DA yn Tanrhiw, Penmon - wedi ei caniatáu.
  - 35C58F/SCR - Barn Sgrinio ar gyfer codi uned gwyliau yn Bryn Mawr, Penmon - ni fydd y datblygiad yn cael effaith sylweddol ar yr ymgylchedd ac nid oes angen asesiad.
  - 35C58E - Cynlluniau diwygiedig ar gyfer codi uned gwyliau wedi ei ganiatau yn flaenorol ar 35C58D yn Bryn Mawr, Penmon - wedi ei caniatáu.
  - 35C305B - Cais llawn ar gyfer codi modurdy dwbwl a stydi uwchben yn Tan Rallt, Llangoed - wedi ei caniatáu.
  - 35C304C - Cais llawn ar gyfer dyluniad diwygiedig ar gyfer y math o dy ar blot 8 yn Bryn Paun, Llangoed (cynllun tai fforddiadwy) - wedi ei caniatáu.

## **7. Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**

- 7.10 Problem fawr gyda charthion eto yn dod allan ym maes parcio Neuadd y Pentre' a hefyd ar y ffordd lawr i Glan Llyn. Wedi trafod y mater gyda swyddog o'r Cyngor Sir, Rhun ap Iorwerth, J Rowlands a Cyfoeth Naturiol Cymru. Teimlo nad i'w ddigon o bobl yn cwyno am y mater. Mae'n amlwg fod maint y beipen yn annigonol. Nifer o dai nawr wedi cael gosod falfiau.
- 7.11 Lôn Tan Marian - tai ar y ffordd yma wedi derbyn llythyr gan y Cyngor Sir yn datgan nad yw'r biniau yn mynd i gael eu gwagio hyd nes y bydd hwyneb y ffordd yn cael ei wella. Ffordd yma yn breifat ac mae darn yn llwybr cyhoeddus. Cyngor Sir yn edrych ar y gyllideb.
- 7.12 Giât Gwelfor - Cyngor Sir mynd i osod postyn newydd.
- 7.13 Arwydd Lleiniog - wedi ei drwsio.
- 7.14 Cyflwr lonydd lleol - Cyngor Sir yn gwneud arolwg.
- 7.15 Wedi gosod arwydd "Dim Baw Cŵn" ger tai gwarchod ym Mhont y Brenin. Gweithwyr wedi gwrthod torri'r ardal.
- 7.16 Cynllun gweithio'n callach yn mynd i ddigwydd yn y Cyngor Sir gyda phosib cost o £1.1 - 1.6m. Pryderon yn cael ei godi gan Cynghorwyr a staff, a oes cyllid yn lle i dalu am y ffurf newydd o weithio gyda thoriadau yn y gyllideb a rhaglen diswyddo wirfoddol ar y gweill?
- 7.17 CJ - wrthi'n casglu gwybodaeth i mewn i'r Band Eang cyflym iawn yn Gymru. Mae'r ffibr opteg wedi cael ei osod yn y cypyrddau gwyrdd ond dim yn dangos yn y tŷ hyd yn hyn. Cyflymder tua 0.4 i fyny at 3mbps. Mae darnau o'r Ynys yn gyflym iawn, gyda chyflymder o 30mbps neu'n uwch.
- 7.18 Cyfarfod Hwb Cymunedol ar 19/11/14 yn Neuadd y Pentre' lle mae grant o £20k ar gael i greu hwb lleol.
- 7.19 Ymddiriedolaeth Elusennol Shell - er budd pobl Ynys Môn. Mae cyfalaf o £17.4m sy'n creu llog o £560k. Wedi rhoi £195k i'r prosiect camerâu pum dref, £210k i'r Gemau'r Ynys. Hefyd wedi cytuno rhoi arian i Ffermwyr Ifanc Môn ar Urdd.
- 7.20 Cyfarfod wedi cymryd lle i drafod cynllun prynu gorfodol am dir yn Llanddona i greu mynwent newydd.

## **8. Neuadd y Pentre'**

Cyng. A Owen yn adrodd:-  
 Noson Calan Gaeaf ar 31/10/14 wedi bod yn llwyddiannus.  
 Mae gobaith trio am grant i atgyweirio'r ffens - pawb yn gytûn.  
 Mr D Williams yn darfod gyda Pwyllgor y Neuadd mis Ebrill  
 Digwyddiad - noson gyda Côr Llanddona ar 13/12/14.

## **9. Prosiect Afon Lleiniog**

Cyfarfod 07/11/14 wedi cael ei gohirio. Cyfarfod nesaf 9/12/14.

## **10. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed**

Cyng. M Ellis yn rhannu gwybodaeth:-

- Noson Bingo yn cael ei gynnal yn y Lolfa ym Mhont y Brenin.
- Wedi pwrcasu bylbiau sydd wedi cael ei blannu gan y plant yn y maes chwarae. Swyddog o Cadwch Gymru'n daclus" wedi helpu.
- Tua 20 o blant wedi troi i fyny i chwynnu Sgwâr Tawelfan.
- Grŵp wedi gwneud cais am grant trwy "Millenium Charitable Trust" er mwyn pwrcasu offer campfa. Hefyd wedi codi digon o arian i bwrcasu Castell pren, i'r maes chwarae.
- PSCO N Tookey dim yn symud o'r ardal yma, dilyn pwysau gan y plant lleol.

## **11. Cod Ymddygiad**

Clerc wedi ymuno ar hyfforddiant ar 30/10/14 gan y Cyngor Sir. Eglurodd y prif bwyntiau, dyletswydd statudol, cod yn berthnasol tu mewn, tu allan i'r Cyngor, yn ffurfiol ac anffurfiol.

## **12. Etholiad**

Cynghorydd Keith Williams yn arwyddo'r ffurflen "datganiad derbyn swydd" a derbyniodd y llyfr "Cynghorydd Da". Esboniodd ei gefndir a chysylltiad â Llangoed. Eglurodd hefyd nad oedd yn rhugl yn yr iaith Gymraeg, lle penderfynwyd byddem yn cynnal y cyfarfod yn ddwyieithog.

## **13. Cyfrifon**

Clerc yn esbonio'r incwm a gwariant hyd at chwarter 2.

**Taliadau**, penderfynwyd talu:-

- Canolfan Hamdden Biwmares rhodd 2014/15 - £700

- G Parry, gwaith cynnal a chadw Fynwent y Plwyf - £550
- Countryside Management, gwaith chwistrellu japanese knotweed - £60.00
- Bil dwr fynwent y Plwyf (Ebrill – Hydref)- £22.13
- Capel Tŷ Rhyd, rhodd cynnal a chadw Fynwent - £350.00
- Eglwys Tt Seiriol, rhodd cynnal a chadw Fynwent - £350.00
- Eglwys St Cawrdaf, rhodd cynnal a chadw Fynwent – £350.00

#### **Incwm**

- Swyddfa Archwilio Cymru, aildosbarthu cronfa wrth gefn - £30.00

#### **14. Gohebiaeth**

Llythyr – amcangyfrif gan J Williams, atgyweirio.

Llythyr – Cyngor Sir, cyfarfod Fforwm Cynllunio 13/11/14 am 6yh,

Apêl - Theatr Bara Caws

Apêl - Eisteddfod Gerddorol Llangollen

Apêl - Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn ar Gororau

e-bost - Cyngor Dref Llangefni, camerâu cylch

#### **15. UFA:**

15.10 Clerc i ofyn am fwy o fanylion ynghlyn ac anfoneb am £216.0 gan OGS, am waith torri canghennau ar ffyrdd lleol. Nid oedden wedi torri'r gangen ger mynedfa Nant Heilyn.

15.12 Gorchymyn gwahardd traffic dros dro oherwydd cynnal a chadw yn:

> School Terrace Penmon rhwng 21/11/14 a 5/12/14

> Tros yr Afon, Lleiniog i Aberlleiniog rhwng 24/11/14 a 5/12/14

15.13 Hanner Marathon - Gau ffordd dros dro ar 01/03/15 ar A545 Porthaethwy i Fiwmares rhwng 8.30 a 12.30.

15.14 Digwyddiad Fictoraidd ym Miwmares 29/11/14 - gwahoddiad gan y Maer a Faeres i gwrdd yn Siambr y Cyngor am 3yp. Cystadleuaeth ffenestr siop Nadolig a gosod goleuadau Nadolig ar.

15.15 Graciau yn y warchodfa Bws ger yr Hen Ysgol yn gweithygu. Penderfynwyd gofyn i Cyng. A Owen edrych ar yr adeilad.

15.16 Cyng. A Roberts yn adrodd fod angen torri llwybr ger Capel Tŷ Rhys.

15.17 Cyng. M Ellis - rhywun wedi bod yn tipio sbwriel ar y tir agored gyferbyn ar warchodfa bws yng Nglanrafon.

15.18 Nifer o gwynion wedi ei derbyn ynghlyn a chyflwr lôn Wern. Mae dŵr wedi golchi wyneb y ffordd. Cyng. L Davies i gysylltu ar Cyngor Sir.

15.19 Cyng. D Roberts - llwybr tŷ cefn i Plas Bodfa wedi ei ail-wynebu gyda gwastraff llechi. Llwybr yn wlyb iawn tuag at y giât. Cyng. W Hughes i edrych ar y mater.

#### **16. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd yr Is-Gadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.20 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 10/12/14

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad